# Nodiadau i athrawon

**Cwestiwn Allweddol: Pa effaith gafodd arfau a thechnoleg newydd ar y Rhyfel Byd Cyntaf?**

Yn y pecyn adnoddau ceir ffynonellau cynradd ac eilradd sy’n cynnwys gwybodaeth am y defnydd o arfau a thechnoleg newydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Bydd disgyblion yn wynebu'r senario canlynol:**

- Mae llawer o arfau a thechnoleg filwrol newydd yn cael eu datblygu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf;
- Mae adnoddau yn brin;
- Mae pob adran o'r lluoedd arfog yn awyddus i dderbyn mwy o arfau.

Bydd pob grŵp yn cynrychioli adran o'r lluoedd arfog a'u tasg yw cyflwyno dadl gref i'r panel a'u perswadio i fuddsoddi rhagor mewn technoleg benodol neu math arbennig o arf.

**Gweithgaredd**

1. Bydd athrawon yn penodi panel i wneud y penderfyniad terfynol am fuddsoddi. Gall y panel hwn gynnwys nifer fechan o ddisgyblion o blith y dosbarth, neu aelodau hŷn o'r gymuned ysgol e.e disgyblion Blwyddyn 12 Hanes.
2. Bydd y dosbarth yn cael ei rannu'n grwpiau a bydd pob grŵp yn derbyn pecyn o adnoddau gwybodaeth am un math o arf.
3. Bydd y grwpiau yn gweithio ar greu cyflwyniad sy'n ceisio perswadio'r panel i fuddsoddi yn eu harf nhw. Mae taflenni gwaith wedi eu darparu ar gyfer y dasg.
4. Gall y panel gwestiynu’r grwpiau tra’u bod yn gwneud y gwaith ymchwil.
5. Bydd y grwpiau yn cyflwyno i'r panel.
6. Bydd y panel yn penderfynu pa arf fyddan nhw'n buddsoddi ynddo ac yn esbonio’u penderfyniad.
7. Bydd y panel yn rhoi adborth am gryfderau a gwendidau pob cyflwyniad.

# Syniadau i athrawon

| Ffocws medrau / Llythrennedd | Testun: Arfau a thechnoleg | Adnoddau |
|---|---|---|
| | **Amcan a nod**: datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd yr arfau a'r dechnoleg newydd a ddefnyddiwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a sut oedd hyn wedi newid natur ymladd adeg y rhyfel.<br><br>Bydd y disgyblion yn cael y cyfle i ymchwilio, darllen a deall adnoddau gwreiddiol ysgrifenedig a gweledol er mwyn dysgu mwy am arwyddocad y dechnoleg newydd mewn rhyfela. | |
| Symbyliad: esiamplau o ddulliau rhyfela o gyfnodau gwahanol e.e cafalri yn Rhyfel y Boer, ffotograffau o'r awyr gan awyrennau, llongau tanfor. | **Cam 1**<br><br>Gellir defnyddio'r enghreifftiau yn y pecyn adnoddau fel sbardun i drafodaeth grŵp drwy annog disgyblion i :<br>• Ddisgrifio prif nodweddion arfau ar draws y canrifoedd<br>• Esbonio sut mae hyn wedi newid dulliau rhyfela<br>• Gwerthuso effaith y newidiadau yma. | **Pecynnau adnoddau:** ***Arfau a thechnoleg* &** ***Arfau cyn y Rhyfel Byd Cyntaf*** |
| **Darllen**<br>• Defnyddio strategaethau darllen gwahanol<br>• Darllen testunau sydd yn newydd iddynt<br>• Chwilio am ddeunyddiau ychwanegol mewn testunau a'u defnyddio i ehangu dealltwriaeth<br>• Ymchwilio i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth lawn o'r pwnc. | **Cam 2**<br>Gall y dosbarth gael ei rannu'n grwpiau:<br>• Bydd pob grŵp yn derbyn pecyn adnoddau am dechnoleg benodol a ddefnyddiwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf<br>• Bydd y grwpiau'n defnyddio'r pecyn adnoddau i ymchwilio'r dechnoleg ac yn defnyddio'r daflen waith i ffocysu ar gwestiynau allweddol.<br>• Bydd y grwpiau yn paratoi cyflwyniad am eu technoleg drwy ddefnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth a gasglwyd ganddynt.<br>• Gall y panel ymweld gyda phob grŵp yn ystod y cyfnod paratoi. | **Pecynnau adnoddau *Arfau a thechnoleg*** |

# Syniadau i athrawon

| | | |
|---|---|---|
| **Siarad**<br>• Gwrando ar wybodaeth a syniadau a ddylanwadodd arnyn nhw. | **Cam 3**<br>• Cyflwyno i'r panel.<br>• Y panel yn holi'r grwpiau. | |
| | **Cam 4**<br>• Y panel yn penderfynu pa arf neu dechnoleg y bydden nhw'n buddsoddi ynddi gan esbonio'r rhesymau dros eu dewis.<br>• Y panel yn rhoi adborth ar bob un o'r arfau a mathau o dechnoleg newydd. | |
| **Ysgrifennu**<br>• Cywain a chasglu gwybodaeth o destunau a ffynonellau<br>• Pwyso a mesur gwybodaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â phwnc.<br>• Dewis, dadansoddi a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn wrthrychol. | **Cam 5**<br>Tasg i ddatblygu'r gwaith:<br>Adolygiad ysgrifenedig o'r arf mwyaf effeithiol yn seiliedig ar y cyflwyniadau. | |

CYNLLUN ADDYSG
Y RHYFEL BYD CYNTAF
1914–1918

**<u>Tasg y disgybl</u>: Pa arfau neu dechnolegau newydd fyddech chi eisiau i reolwyr y Lluoedd Arfog fuddsoddi ynddyn nhw?**

**Enw'r dechnoleg:**

| Sut fyddech chi'n defnyddio'r dechnoleg hon mewn brwydr? Pa mor effeithiol yw'r dechnoleg? | Fedrwch chi feddwl am fanteision eraill? | Beth yw cost y dechnoleg hon? |
| --- | --- | --- |
| | | |







**<u>Senario aelodau'r panel</u>: Rydych yn rheoli'r Lluoedd Arfog. Pa arfau neu dechnolegau fyddech chi'n buddsoddi ynddyn nhw?**

**Eich cyllideb yw ___________________**

| **Technoleg** | **Cryfderau'r dechnoleg?** | **Gwendidau'r dechnoleg?** | **Oes manteision eraill i'r dechnoleg yn ystod neu wedi'r rhyfel?** | **Faint fyddech chi'n medru prynu gyda'ch cyllideb?** |
|---|---|---|---|---|
| Tanciau | | | | |
| Magnelau a Sieliau | | | | |
| Awyrennau | | | | |
| Llongau Rhyfel | | | | |
| Gynnau peiriant | | | | |
| Llongau tanfor | | | | |

Cwestiynau i aelodau'r grŵp:

**Tanciau**



**Magnelau a sieliau**



**Awyrennau**



**Llongau rhyfel**



**Gynnau peiriant**



**Llongau tanfor**

